BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

13 Rhagfyr 2019

Annwyl bawb

**Ynghylch: Penderfyniadau ar rannau dau a thri o'r Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad**

Ysgrifennaf atoch gyda chrynodeb o benderfyniadau'r Bwrdd ar ôl iddo drafod yr ymatebion a gafwyd o'r **ail a'r trydydd ymgynghoriad** yn deillio o'i adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad. Mae'r Bwrdd yn ddiolchgar iawn i'r rhai a rannodd eu barn fel rhan o'r prosesau ymgynghori. Ar ôl trafod yn fanwl yr ymatebion a gafwyd, nodir casgliadau'r Bwrdd ar bob un o'r cynigion dan y cynnig perthnasol isod. At ddibenion rhan dau o'r adolygiad, mae rhai cynigion wedi'u grwpio gyda'i gilydd er hwylustod.

**Rhan dau o'r Adolygiad: Cymorth i'r Aelodau a'r Pleidiau Gwleidyddol, gan gynnwys newidiadau i Reolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau**

**Cynnig 1:** ***Mae'r Bwrdd yn cynnig diwygio'r polisi recriwtio i egluro nad oes cyfyngiad ar allu'r Aelodau i recriwtio ar gontractau cyfnod penodol ac i gontractau sy'n para'n hwy na chwe mis fod yn destun proses recriwtio agored a theg.***

Trafododd y Bwrdd yr ymatebion i'r cynnig hwn a nododd fod yr holl ymatebwyr yn derbyn y cynnig i'r Aelodau a'r pleidiau gwleidyddol gael mwy o hyblygrwydd i recriwtio ar gontractau cyfnod penodol a'u bod yn ei groesawu, er gwaethaf rhai pryderon.

Nododd y Bwrdd rai amheuon ynghylch cyflwyno mwy o hyblygrwydd, ac awgrymiadau y dylid adolygu'r cynnig hwn ar ôl ei roi ar waith. Nododd y Bwrdd hefyd y cais i'r cynnig gael ei roi ar waith ar gyfer gweddill y Pumed Cynulliad er mwyn gwneud y mwyaf o'r hyblygrwydd sydd ar gael i'r Aelodau yn y flwyddyn olaf cyn etholiad y Cynulliad yn 2021.

Ar ôl trafod yr ymatebion, cytunodd y Bwrdd y byddai'n briodol diwygio'r cynnig gwreiddiol a phennu hyd at 18 mis ar gyfer contractau cyfnod penodol. Roedd yn dal i fod o'r farn bod pob contract sy'n hwy na chwe mis yn destun proses recriwtio agored a theg.

Mae’r Bwrdd yn credu y byddai'n briodol gweithredu hyn ar gyfer gweddill y Pumed Cynulliad, yn amodol ar ymgynghoriad. Mae'r cynnig hwn bellach yn destun ymgynghoriad fel rhan o'r Adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad ar gyfer 2020-21, fel y nodwyd yn llythyr y Bwrdd sy’n rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf (dyddiedig 6 Rhagfyr 2019) yn dilyn cyfarfod mis Tachwedd. 7 Chwefror 2020 yw dyddiad cau'r ymgynghoriad.

Hefyd, cytunodd y Bwrdd y dylid adolygu'r ddarpariaeth hon ar ôl 12 mis. Diben gwneud hynny yw rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf am effeithiolrwydd y ddarpariaeth a sicrhau nad yw’n cael effaith niweidiol ar hawliau staff. Hefyd, cytunodd y Bwrdd, os bydd newidiadau i ddeddfwriaeth gyflogaeth yn y dyfodol, y gall fod angen diwygio’r ddarpariaeth i adlewyrchu hynny.

Wedi cytuno i roi'r cynnig diwygiedig ar waith, trafododd y Bwrdd hefyd y mater a godwyd yn ymwneud â chontractau cyfnod penodol ar gyfer absenoldeb mamolaeth. Roedd pryder, gan fod absenoldeb mamolaeth yn hwy na chwe mis, y gall gorfod mynd drwy broses recriwtio ffurfiol ar gyfer cyfnod arall pan fo staff cyflenwi eisoes wedi’u penodi fod yn wastraff amser ac adnoddau i'r Aelod, y staff a darpar ymgeiswyr swyddi. O'r herwydd, cytunodd y Bwrdd y dylid gosod contractau cyfnod penodol ar gyfer absenoldeb mamolaeth staff ar 12 mis yn unol â’r darpariaethau mamolaeth statudol. Bydd y contractau hyn hefyd yn destun proses recriwtio agored a theg. Hefyd, cytunodd y Bwrdd y dylai'r ddarpariaeth hon fod yn gymwys ar gyfer absenoldeb mamolaeth, absenoldeb mabwysiadu ac absenoldeb rhiant a rennir.

**Cynnig 2: *Mae'r Bwrdd yn cynnig caniatáu i’r Aelodau benderfynu ar gyflog cychwynnol eu staff cymorth a phenderfynu ar godiadau cyflog cynyddrannol yn dilyn y cyfnod prawf yn amodol ar y meini prawf cyflog cychwynnol.***

**Cynnig 6: *Mae'r Bwrdd yn cynnig caniatáu i arweinwyr pleidiau gwleidyddol benderfynu ar gyflog cychwynnol eu staff cymorth a phenderfynu ar godiadau cyflog cynyddrannol yn dilyn y cyfnod prawf yn amodol ar y meini prawf cyflog cychwynnol.***

Cytunodd yr holl ymatebwyr â bwriad y cynnig i ganiatáu i Aelod/arweinydd plaid roi staff newydd ar gyflog cychwynnol uwch nag isafswm y raddfa (er y disgwylir i'r holl staff newydd ddechrau ar isafswm y raddfa ar gyfer y band priodol). Hefyd, derbyniodd yr holl ymatebwyr y cynnig i ganiatáu i Aelod/arweinydd plaid, ar ôl cwblhau'r cyfnod prawf, symud yr aelod staff i fyny'r raddfa gynyddrannol i bwynt 2 cyn blwyddyn ar ôl dechrau’r gyflogaeth. Disgwylir i’r Aelodau ac arweinwyr pleidiau roi sylw i ganllawiau ar y meini

prawf cyflog cychwynnol cyn gwneud penderfyniadau ar gyflog cychwynnol eu staff cymorth.

Gofynnodd rhai ymatebwyr i ganllawiau clir fod ar gael mewn perthynas â'r meini prawf cyflog cychwynnol.

Felly, cytunodd y Bwrdd i'r newidiadau arfaethedig ar gyfer y Chweched Cynulliad. Wrth wneud hynny, cytunodd y Bwrdd hefyd i'r ysgrifenyddiaeth ymgysylltu â'r Grwpiau Cynrychiolwyr wrth ddatblygu'r canllawiau perthnasol. Yn ogystal, cytunodd y Bwrdd hefyd i adolygiad 12 mis o'r ddarpariaeth hon er mwyn gwerthuso'r ffordd y mae'n cael ei rhoi ar waith a'r ffordd y mae'r canllawiau'n cael eu defnyddio.

**Cynnig 3: Mae'r Bwrdd yn cynnig caniatáu i staff cymorth y mae eu swyddi'n cael eu dileu o ganlyniad i ailstrwythuro swyddfa, ac y mae ganddynt hawl i daliad dileu swydd, gael hawl i godiad 100 y cant o'r hawl statudol, a gaiff ei ariannu o Lwfans Gwariant Staffio'r Aelod.**

**Cynnig 7:** ***Mae'r Bwrdd yn cynnig caniatáu i staff cymorth [Grŵp] sy'n colli eu swyddi o ganlyniad i ailstrwythuro swyddfa gael hawl i godiad 100 y cant o'r hawl statudol, a gaiff ei ariannu o'u Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol.***

**Cynnig 8: Mae'r Bwrdd yn cynnig y dylai staff cymorth [Grŵp] sy'n colli eu swyddi oherwydd bod llai na thri Aelod gan blaid wleidyddol, neu pan fydd Aelod unigol yn ymuno â phlaid wleidyddol, gael hawl i daliadau colli swydd gyda chodiad 100 y cant.**

Trafododd y Bwrdd yr ymatebion i'r ymgynghoriad mewn perthynas â Chynigion 3, 7 ac 8 a nododd nad oedd yr holl ymatebwyr yn gefnogol i ddarparu codiad 100 y cant ar hawl dileu swydd statudol i staff y mae eu swyddi'n cael eu dileu dan yr amgylchiadau a nodir yn y cynigion ac y caiff ei ariannu o'r lwfans presennol.

Nododd y Bwrdd hefyd yr amgylchiadau ychwanegol a godwyd gan rai ymatebwyr pan allai codiadau 100 y cant fod yn gymwys. Roedd sefyllfaoedd o'r fath yn cynnwys y rhai pan fo swyddi staff cymorth yn cael eu dileu o ganlyniad i afiechyd yr Aelod sy'n eu cyflogi, neu staff sy'n colli eu swyddi o ganlyniad i benderfyniadau blaenorol y Bwrdd ynghylch cyflogi aelodau teulu.

Roedd trafodaethau'r Bwrdd ar y cynigion hyn yn canolbwyntio ar yr amgylchiadau y gellid eu disgwyl yn rhesymol a'r rhai na ellid eu disgwyl yn rhesymol ar gyfer staff cymorth a chytunwyd y dylai codiad 100 y cant fod yn gymwys mewn achosion pan gaiff swyddi eu

colli’n annisgwyl. O'r herwydd, cytunodd y Bwrdd, yn yr holl amgylchiadau a nodir yng Nghynigion 3, 7 ac 8 ac, yn ychwanegol, pan fo Aelod yn ymddiswyddo oherwydd rhesymau iechyd, y byddai'r rhain yn sefyllfaoedd annisgwyl ac y gallent ddigwydd yn gyflym iawn mewn gwirionedd. Felly, cytunodd y Bwrdd y dylai'r codiad 100 y cant, fel y nodwyd, fod yn gymwys yn yr holl amgylchiadau hyn.

Cytunodd y Bwrdd, pan fo staff yn cael eu diswyddo oherwydd eu bod yn aelod teulu, y rhoddwyd cyfnod rhybudd hir o benderfyniad y Bwrdd ynghylch aelodau teulu, a wnaed ym mis Ebrill 2019 ac na fydd yn dod i rym tan ddiwedd y Chweched Cynulliad, a ddisgwylir ym mis Ebrill 2026. O'r herwydd, ni chytunodd y Bwrdd y dylai'r sefyllfa hon fod yn destun codiad 100 y cant.

**Cynnig 4: Mae'r Bwrdd yn cynnig sicrhau bod interniaid, ac eithrio'r rhai ar leoliadau addysg uwch, sydd ar leoliadau hwy na phedair wythnos yn cael cyflog sy'n cyfateb i isafswm graddfa band tri.**

**Cynnig 9:** ***Mae'r Bwrdd yn cynnig bod interniaid, ac eithrio'r rhai ar leoliadau addysg uwch, sydd ar leoliadau hwy na phedair wythnos gyda grŵp plaid yn cael cyflog sy'n cyfateb i isafswm graddfa band tri.***

Trafododd y Bwrdd yr ymatebion i'r cynigion hyn a nododd nad oedd yr holl ymatebwyr yn cytuno â hwy. Mae'r Bwrdd yn awyddus i ailadrodd bod y cynigion hyn ar gyfer interniaethau heblaw am y rhai a drefnir drwy leoliad addysg bellach neu addysg uwch a allai ddigwydd dros nifer o fisoedd. Nid oedd y Bwrdd o'r farn bod angen rhoi proses recriwtio ar waith ar gyfer interniaid ond y byddai'n annog yr Aelodau i gynnal un os ydynt yn teimlo bod angen gwneud hynny.

Mae'r Bwrdd yn credu mai budd pennaf yr Aelodau a'r interniaid sydd wrth wraidd bwriad y cynigion ac, o'r herwydd, derbyniodd y cynigion yn llawn. Mae'r Bwrdd yn gobeithio y bydd ei gynigion hefyd yn helpu o ran yr amcanion cydraddoldeb, didwylledd a thegwch mewn perthynas ag interniaethau. Yn unol â hyn, cytunodd y Bwrdd hefyd i gyflwyno canllawiau mewn perthynas ag interniaid ac i'r Grwpiau Cynrychiolwyr ddylanwadu wrth eu datblygu.

**Cynnig 5: Mae'r Bwrdd yn cynnig cyflwyno gweithdrefn ar gyfer lleoliadau gwirfoddolwyr yn swyddfeydd yr Aelodau.**

**Cynnig 10:** ***Mae'r Bwrdd yn cynnig cyflwyno gweithdrefn ar gyfer lleoliadau gwirfoddolwyr yn swyddfeydd grwpiau’r pleidiau.***

O ystyried yr ymatebion i'r cynigion hyn, nododd y Bwrdd y gefnogaeth gyffredinol iddynt a hefyd yr awgrym i gael canllawiau ar gyfer gwirfoddolwyr sy'n gwirfoddoli am lai na phedair wythnos. Derbyniodd y Bwrdd y cynigion a bydd yn cynnwys y Grwpiau Cynrychiolwyr wrth ddatblygu gweithdrefn gwirfoddolwyr.

**Rhan dau o'r ymgynghoriad ar Ran dau o'r Adolygiad: Newidiadau i Reolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau**

**Cynnig 1:** ***Mae'r Bwrdd yn cynnig newid Rheolau Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad er mwyn cydymffurfio â gofynion gwahaniaethu ar sail oedran o ran aelodau'r Cynllun sy'n 75 oed neu'n hŷn.***

**Cynnig 2:** ***Mae'r Bwrdd yn cynnig diwygio rheolau'r Cynllun er mwyn caniatáu i aelodau'r Cynllun y mae eu disgwyliad oes yn llai na 12 mis gael yr opsiwn i'w pensiwn afiechyd gael ei gyfnewid yn llawn am swm arian parod. Byddai hyn yn ychwanegol at y darpariaethau presennol o ran afiechyd a marwolaeth yn ystod gwasanaeth o fewn rheolau'r Cynllun.***

Roedd yr holl ymatebion i'r cynigion i newid Rheolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau'n gefnogol. Cytunodd y Bwrdd i gyfarwyddo arbenigwyr cyfreithiol i ddrafftio'r newidiadau ar eu rhan a bydd y Bwrdd yn trafod y newidiadau rheolau ac yn cytuno arnynt i'w rhoi ar waith cyn gynted â phosibl.

**Rhan tri o'r Adolygiad: Taliadau'r Aelodau a chymorth ychwanegol i'r Aelodau**

**Cynnig 1:** ***Byddai'r Bwrdd yn croesawu eich barn am ei gynnig i gynnal y lefelau cyflog presennol sy'n daladwy i'r Aelodau a deiliaid swyddi, yn amodol ar drefniadau mynegeio blynyddol, drwy gydol y Chweched Cynulliad.***

Roedd yr holl ymatebwyr i gynnig cyntaf y Bwrdd o'i drydydd ymgynghoriad yn gefnogol i'r cynnig i gynnal y lefelau cyflog presennol yn amodol ar drefniadau mynegeio blynyddol. Derbyniodd y Bwrdd y cynnig ar gyfer y Chweched Cynulliad.

**Cynnig 2:** ***Byddai'r Bwrdd yn croesawu eich barn am ei gynnig i ddiwygio'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad i ddarparu bod gan berson a ddynodir o dan adran 49(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i ymgymryd â swyddogaethau'r Cwnsler Cyffredinol hawl i gael ei dalu am gyfnod ei ddynodiad yn unol â chyflog deiliad y swydd sy'n daladwy i Gwnsler Cyffredinol.***

Roedd yr holl ymatebwyr a drafododd y cynnig hwn yn eu hymatebion yn gefnogol. Derbyniodd y Bwrdd y cynnig.

Hefyd, trafododd y Bwrdd gyngor ynghylch swydd debyg y darpar Brif Weinidog. Mae Deddf Llywodraeth Cymru yn darparu i'r Llywydd ddynodi person i arfer swyddogaethau Prif Weinidog mewn amgylchiadau penodol (adran 46). Felly, mae'r Bwrdd yn credu y byddai'n ddoeth rhoi darpariaeth debyg ar waith. Bydd y cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn yr ymgynghoriad terfynol ar y Penderfyniad drafft ddechrau'r flwyddyn nesaf.

**Cynnig 3:** ***Byddai'r Bwrdd yn croesawu eich barn am ei gynnig y dylai'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad, er mwyn darparu mwy o eglurder, gynnwys darpariaeth i alluogi'r Aelodau i adennill treuliau yr aed iddynt wrth ymgymryd â'u cyfrifoldebau fel Aelod Cynulliad, lle y mae treuliau o'r fath o ganlyniad i anabledd sy'n bodloni'r diffiniad yn Neddf Cydraddoldeb 2010.***

Nododd y Bwrdd fod yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i ddatblygu pennod newydd yn y Penderfyniad i ddarparu cymorth i'r Aelodau ag anableddau. Cytunodd y Bwrdd mai lleihau'r rhwystrau i sefyll etholiad i'r Cynulliad a denu ystod fwy amrywiol o ddarpar ymgeiswyr y dylai bwriad y bennod newydd hon fod. Cytunodd y Bwrdd y dylai'r bennod ymwneud â chymorth i'r Aelodau, eu staff cymorth a'u hetholwyr.

Bydd y Bwrdd yn ysgrifennu at Gomisiwn y Cynulliad i gadarnhau ei benderfyniad ar y darpariaethau newydd i gefnogi anghenion ychwanegol yn y Penderfyniad gyda'r bwriad o ddarparu mwy o eglurder o ran sut y gellir cyrchu cymorth o'r Penderfyniad a'i fod yn ymwneud â materion a ariennir gan Gronfa Cydraddoldeb a Mynediad y Comisiwn ar hyn o bryd. Cytunodd y Bwrdd i ymgynghori ar fanylion y darpariaethau newydd hyn fel rhan o'i ymgynghoriad ar y Penderfyniad drafft a gaiff ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2020.

**Cynnig 4:** ***Byddai'r Bwrdd yn croesawu eich barn am ei gynnig y dylai'r Aelodau allu hawlio cyfraniad i'w helpu gyda'r costau angenrheidiol ar gyfer gofalu am blant neu ddibynyddion eraill. Bydd ad-daliad yn destun terfyn misol penodedig, a dim ond pan roddir derbynebau gan ddarparwyr gofal rheoleiddiedig y bydd yn daladwy ar gyfer costau gofal ychwanegol yr eir iddynt er mwyn galluogi'r Aelodau i ymgymryd â'u dyletswyddau fel Aelodau'r Cynulliad.***

Nododd y Bwrdd y gefnogaeth gyffredinol yn ymatebion y cynnig i helpu'r Aelodau o ran costau angenrheidiol ar gyfer gofalu am blant neu ddibynyddion eraill. Cytunodd y Bwrdd,

mewn egwyddor, i gynnwys darpariaeth yn y Penderfyniad i helpu’r Aelodau gyda'r costau ar gyfer gofalu am blant neu ddibynyddion eraill a chytunodd i ymgynghori ar fanylion penodol y ddarpariaeth fel rhan o'i ymgynghoriad ar y Penderfyniad llawn ym mis Ionawr 2020.

**Cynnig 5:** ***Byddai'r Bwrdd yn croesawu eich barn am ei gynnig, er mwyn dileu rhwystr posibl a allai, fel arall, atal Aelodau rhag cael cymorth sy'n ymwneud â'u hanableddau; gofal plant neu gyfrifoldebau gofalu eraill; neu lwfans Gwariant ar Lety Preswyl ychwanegol sy'n ymwneud â dibynyddion sy'n preswylio fel arfer gyda'r Aelod yng Nghaerdydd, y dylid cyhoeddi hawliadau a wneir mewn perthynas â'r lwfansau hyn ar sail ddienw, gyfanredol ar gyfer yr holl lwfansau, yn hytrach na'u priodoli i Aelodau unigol.***

Cefnogodd yr holl ymatebwyr y cynnig fel bod hawliadau lwfansau gan yr Aelodau sy'n ymwneud ag anabledd, gofal plant a chyfrifoldebau gofalu yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol ar sail anhysbys a chyfanredol. Derbyniodd y Bwrdd y cynnig ar gyfer y Chweched Cynulliad.

**Cynnig 6.** ***Byddai’r Bwrdd yn croesawu eich barn ynghylch a yw’r trefniadau presennol sydd ar waith ar gyfer Aelodau sydd am gael rhyw fath o absenoldeb rhiant yn arwain at rwystrau posibl ac, os ydynt, sut y gellir mynd i'r afael â’r rhwystrau hynny.***

Nododd y Bwrdd y gefnogaeth fras i'r cynnig i gryfhau ac egluro darpariaethau yn y Penderfyniad i gefnogi Aelodau sydd am gael rhyw fath o absenoldeb rhiant. Wrth drafod yr ymatebion, nododd y Bwrdd fwriad Pwyllgor Busnes y Cynulliad i gyflwyno pleidleisio drwy ddirprwy, i ddechrau, ar gyfer Aelodau sy'n cael absenoldeb rhiant.

Hefyd, trafododd y Bwrdd ymatebion yn galw am drefniadau tebyg sydd wedi bod ar gael yn San Steffan i Aelodau Seneddol yn ddiweddar gyda'r bwriad o greu darpariaeth i gefnogi'r syniad ar gyfer Aelod Cynulliad locwm. Nododd y Bwrdd nad yw’n bosibl i Aelod locwm gymryd lle Aelod etholedig dros dro gan fod elfennau hanfodol o’r swydd na all unrhyw un heblaw am yr Aelod etholedig ymgymryd â hwy. Fodd bynnag, mae'n bosibl rhoi adnoddau ychwanegol ar waith i helpu i reoli gwaith yn absenoldeb yr Aelod, fel y darperir ar gyfer Aelodau Seneddol. O'r herwydd, cytunodd y Bwrdd y byddai'n trafod cynigion ymhellach ynghylch sut i ddarparu adnoddau ychwanegol i’r Aelodau sy'n cael absenoldeb rhiant.

BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

Felly, cytunodd y Bwrdd i ymgynghori ar y darpariaethau manwl fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Penderfyniad llawn ym mis Ionawr.

Hefyd, trafododd y Bwrdd daliadau i ddeiliaid swyddi dros dro yn ystod absenoldeb o’r fath gan i’r mater gael ei godi gan un o’r ymatebwyr. Cytunodd y Bwrdd i drafod y mater hwn ymhellach yn ei gyfarfod nesaf.

**Materion eraill**

Trafododd y Bwrdd faterion eraill a godwyd mewn ymatebion yn ymwneud â staff cymorth yn dilyn Adroddiad y Bwrdd ar yr Adolygiad o’r Cymorth Staffio (Gorffennaf 2019). Tynnodd rhai ymatebwyr sylw fod y cynnydd mewn gwaith achos, gwaith pwyllgor, Brexit a phwerau deddfwriaethol ychwanegol y Cynulliad wedi golygu bod rolau’r staff cymorth wedi datblygu. Nododd y Bwrdd y pwyntiau a wnaed, ond cyfeiriodd at y gwaith yr oedd wedi'i wneud fel rhan o'r Adolygiad ac mae'n parhau i fod o'r farn nad oes tystiolaeth ddigonol i gefnogi ailwerthuso cyflogau’r staff cymorth. Cytunodd y Bwrdd y bydd yn parhau i adolygu'r mater hwn fel rhan o'i adroddiad etifeddiaeth i'r Bwrdd nesaf.

Hefyd, trafododd y Bwrdd bryderon yn ymwneud â'r cynllun pensiwn staff cymorth. Nododd y Bwrdd y pryderon a chytunodd i drafod opsiynau’r cynllun ymhellach mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Bydd y Bwrdd yn cyhoeddi ymgynghoriad terfynol ar y Penderfyniad cyfan ym mis Ionawr 2020.

Hefyd, caiff y llythyr hwn ei gyhoeddi ar adran adolygiadau ein **gwefan**.

Dymuniadau gorau,

**Y Fonesig Dawn Primarolo**

**Cadeirydd y Bwrdd Taliadau**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.